| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **CABINET** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **18 Chwefror 2014** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Cynghorydd Eryl Williams/Karen Evans** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Karen Evans** |
| **Teitl:** | **Model Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Rhanbarthol i Wella Ysgolion** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau am ddatblygiadau'n gysylltiedig â gwasanaethau gwella ysgolion a chymeradwyo'r Model Cenedlaethol newydd ar gyfer Gwaith Rhanbarthol i Wella Ysgolion.

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar y cyd â'r pum awdurdod lleol arall yng Ngogledd Cymru ac fe'i cyflwynir gerbron y Cabinet ym mhob awdurdod lleol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad?

Yn Adolygiad Hill, nodwyd sawl opsiwn ar gyfer gwella darpariaeth a strwythur gwasanaethau addysg yng Nghymru. Un o'r opsiynau allweddol oedd bod angen mwy o gysondeb wrth ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion drwy'r consortia addysg rhanbarthol. Cefnogwyd y safbwynt hwn gan lywodraeth leol drwy ymateb CLlLC i Adolygiad Hill ym mis Medi 2013.

Yn deillio o hyn, ymrwymiad allweddol ar ran llywodraeth leol fu llunio Model Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Rhanbarthol i Wella Ysgolion (a elwir "Y Model" o hyn allan) ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Nod y Model yw cysoni a sefydlogi gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol yr awdurdodau lleol, sy'n gydnaws ag ymateb CLlLC i Adolygiad Hill.

Cwblhawyd y gwaith i ddatblygu'r Model yn ystod mis Tachwedd 2013, gyda chynrychiolwyr Prif Weithredwyr, Cyfarwyddwyr Addysg, Cyfarwyddwyr Cyllid a Chyfarwyddwyr Adnoddau Dynol o awdurdodau lleol yn cymryd rhan flaenllaw yn y broses. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, ffurfiwyd sawl gweithgor, gan gynnwys swyddogion llywodraeth leol, arbenigwyr addysg a gweision sifil o Lywodraeth Cymru. Mae'r gweithgorau hyn wedi gweithio ar wahanol agweddau ar y Model, gan gynnwys egluro'r diffiniad o wella ysgolion, llywodraethu a chomisiynu, cyllidebau a chynllunio busnes ar gyfer gwasanaethau rhanbarthol.

Cytunodd y Gweinidog a Phwyllgor Cydgysylltu CLlLC ar y Model yn hwyr ym mis Tachwedd 2013. Roedd yr amserlen ar gyfer cyflawni'r gwaith hwn yn dynn, ond bu'n broses wirioneddol o lunio ar y cyd. Yn anochel, bu'n rhaid i bob ochr gyfaddawdu i ryw raddau.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n trafod a chymeradwyo'r ddogfen a gynigir, sef y Model Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Rhanbarthol i Wella Ysgolion. **Atodiad 1**

Cytuno â'r argymhelliad:

> “y dylid mabwysiadu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Rhanbarthol i Wella Ysgolion a bod cynllun busnes yn cael ei ddatblygu gyda'r bwriad o ymgorffori'r gwasanaethau ychwanegol a restrir yn y Model ym model rhanbarthol GwE, fesul cam, yn amodol ar gyflwyno achos busnes boddhaol ar gyfer pob un a chynllun pontio cysylltiedig er mwyn sicrhau parhad a pherfformiad gwasanaethau”.

## 4. Manylion yr adroddiad

Mae'r Model yn amlinellu ymagwedd gyson at weithgarwch gwella ysgolion, fel sut i weithredu cymorth ysgol i ysgol sy'n rhan allweddol o'r broses o symud tuag at ysgolion sy'n eu gwella eu hunain. Nod y Model yw annog ysgolion i fod yn fwy cyfrifol am eu gwelliant eu hunan. Mae'r Model hefyd yn ceisio egluro rhai materion, fel pa weithgarwch defnyddiol y gellid ei gyflawni ar raddfa'r awdurdod lleol, a pha weithgarwch y mae'n well ei drafod yn rhanbarthol.

Mae rhan allweddol o'r ddogfen yn trafod y trefniadau llywodraethu mewn perthynas â gwasanaethau cydweithredol rhanbarthol i wella ysgolion. Cedwir at y sefyllfa statudol gyfredol, gyda’r awdurdodau lleol unigol yn parhau i fod yn gyfrifol am wella ysgolion. Awgryma'r Model mai Cyd-bwyllgor yw'r ffordd orau o lywodraethu, a bod hynny'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol Deddf Llywodraeth Leol 1972; byddai aelodau'r Cyd-bwyllgor yn cael eu penodi gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol. I gefnogi'r grŵp hwn ceid bwrdd gweithredol a fyddai'n trafod materion mwy gweithredol yn gysylltiedig á'r gwasanaeth rhanbarthol.

Yn rhan o'r trefniadau newydd, cytunwyd bod angen templed cynllun busnes cyffredin fel bo modd i gonsortia gael dull clir o nodi eu blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn a'r canlyniadau a ddisgwylir. Bydd y Gweinidog Addysg a Sgiliau'n defnyddio'r cynlluniau'n sail ar gyfer cytundeb canlyniadau â'r consortia, ac yn derbyn y cynlluniau'n ffurfiol (neu beidio) bob blwyddyn. Dylid cwblhau'r broses o gyflwyno a chymeradwyo cynllun busnes erbyn diwedd mis Mawrth bob blwyddyn.

Drwy gynnal digwyddiadau Adolygu a Herio rheolaidd (archwiliadau gynt), bydd Llywodraeth Cymru'n monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a'r canlyniadau a nodir yn y cynlluniau busnes, ac yn dwyn consortia ac awdurdodau lleol i gyfrif am hynny. Rhaid i'r cynlluniau:-

- ganolbwyntio ar ganlyniadau strategol;
- gydweddu'n effeithiol â'r canlyniadau a nodwyd mewn cynlluniau awdurdod lleol statudol;

- sicrhau blaenoriaethau cenedlaethol a lleol er mwyn cael effaith ar ddeilliannau dysgwyr;
- gael eu defnyddio i oleuo trefniadau atebolrwydd democrataidd; a
- bod yn seiliedig ar ddadansoddiad effeithiol o ddata ac anghenion.

Rhagwelir y bydd gan y consortia, o fewn y canllawiau a nodir yn y Model, drefniadau eraill wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer cynllunio strategol, llywodraethu a gwneud penderfyniadau'n effeithiol, trefniadau rheoli perfformiad ac atebolrwydd clir yn fewnol ac ar gyfer awdurdodau lleol cyfansoddol, hunanwerthuso, sicrhau ansawdd, cynlluniau gweithredu i'w rhoi ar waith ar raddfa'r awdurdod lleol, rheoli risg a chynllunio ariannol cadarn.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu at y Flaenoriaeth Gorfforaethol o wella perfformiad mewn addysg ac ansawdd ein hadeiladau ysgol.

**6. Yr Effaith ar Gydraddoldeb**

Nid oes unrhyw oblygiadau o ran yr effaith ar gydraddoldeb yn deillio'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn.

**7. Beth fydd yn ei gostio, a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Ym mis Hydref 2013, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ddatganiad ysgrifenedig yn derbyn y cynnig gan lywodraeth leol i ddiogelu cyllid gwella ysgolion o fewn setliad y gyllideb llywodraeth leol ac i lunio Model Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Rhanbarthol ar y cyd.

Mae'r cytundeb yn disodli'r cynnig, yn Adolygiad Hill, i ariannu gwasanaethau rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion drwy drosglwyddiad o'r Grant Cynnal Refeniw. Mae'n cytuno y bydd cyfraniadau Awdurdodau Lleol at swyddogaethau gwella ysgolion yn cael eu diogelu ar sail y fethodoleg a'r cyllid a nodir ar y papurau a gyflwynir i'r Is-grŵp Dosbarthu a'r Is-grŵp Cyllid.

Mae'r swm yn seiliedig ar isafswm y brigdoriad a gynigiwyd yn wreiddiol (£19.2m), llai'r gostyngiad canrannol cyfartalog mewn cyllid refeniw craidd i Gymru, fel y cyhoeddwyd yn y Setliad Llywodraeth Leol Terfynol ar gyfer 2014-15. Mae hyn yn gyfwerth â 3.4%

Mae'r dyraniadau i awdurdodau unigol yn seiliedig ar ddosbarthiad Asesiad o Wariant Safonol y sector Ysgolion Prif Ffrwd, fel y nodir yn Setliad Terfynol 2014-15. Mae'r sector Ysgolion Prif Ffrwd yn cynnwys y prif feysydd gwasanaeth sy'n ymwneud â darpariaeth addysg Gynradd, Uwchradd ac Arbennig.

**Yn achos GWE:-**
Ni fydd cyllid ychwanegol i dalu'r symiau a nodir yn y Model Cenedlaethol ond yn cael ei drosglwyddo i GwE wrth i'r swyddogaethau hwythau gael eu trosglwyddo.

Bydd hyn yn unol â'r cerrig milltir a nodwyd yn y Cynllun Busnes ac yn amodol ar gydymffurfio'n llwyr â'r argymhelliad yn 4 uchod.

**8. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a gynhaliwyd ar gyfer y penderfyniad? Dylid atodi'r templed AEC sydd wedi'i gwblhau fel atodiad i'r adroddiad.**

Nid oes unrhyw oblygiadau'n deillio'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn o ran yr effaith ar gydraddoldeb.

**9. Pa ymgyngoriadau a gynhaliwyd â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae'r Model wedi cael ei ddatblygu drwy ymgysylltu â swyddogion llywodraeth leol, arbenigwyr addysg, gweision sifil, CLlLC a Llywodraeth Cymru.

Bydd angen ymgynghori'n barhaus ag arweinwyr ysgolion, llywodraethwyr, swyddogion gwella ysgolion, awdurdodau cyfagos a Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu cynllun busnes rhanbarthol 2014/15.

**10. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Cytunwyd ar gost y gwasanaeth rhanbarthol drwy'r cytundeb lefel gwasanaeth. Negodir ynghylch costau ychwanegol cyn gynted ag y bo'r cynllun busnes wedi nodi gwasanaethau pellach i'w trosglwyddo i GwE yng nghyd-destun y model cenedlaethol.

**11. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Er mwyn lleihau unrhyw risg i'r swyddogaeth cefnogi a herio yn ysgolion Dinbych, bydd Swyddogion Addysg o fewn yr Awdurdod yn monitro ac yn asesu ansawdd y Gwasanaeth Addysg Rhanbarthol (GwE)

**12. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Erthyglau 6.1 a 6.3.4(b) yng Nghyfansoddiad y Cyngor

**Swyddog Cyswllt:**
**Pennaeth Addysg:**
Ffôn: 01824 708009